| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y CYNGOR |
| **DYDDIAD** | 16 Rhagfyr, 2010 |
| **TEITL** | Adolygiad o'r Broses Ad-drefnu Ysgolion Gwynedd |
| **PWRPAS** | Ceisio cefnogaeth y Cyngor ar argymhellion wedi adolygiad o'r broses ad-drefnu ysgolion cynradd Gwynedd |
| **ARGYMHELLIAD** | Cymeradwyo'r argymhellion |
| **AWDUR** | Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwyr Strategol |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Cyng. Liz Saville Roberts |

## 1.0 CEFNDIR

1.1 Cefnogwyd strategaeth *Addysg o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd* yn ddiwrthwynebiad gan Gyngor Gwynedd yn Ebrill 2009.

1.2 Nodwyd bwriad i adolygu trefniadaeth holl ysgolion cynradd y sir fesul dalgylch, gan anelu at gynnal 3 adolygiad yn flynyddol. Cychwynnwyd yn nalgylch Tywyn ym Mai 2009, yn nalgylch Y Berwyn yn Nhachwedd 2009, ac yn nalgylch Y Gader yn Ebrill 2010.

1.3 Mae'r strategaeth yn caniatáu adolygiad o'r broses ar ôl cwblhau adolygiad y drydydd dalgylch.

1.4 Mae cynigion wedi'u gwneud ac ymgynghori arnynt yn nalgylch Tywyn ac wedi'u cyhoeddi ac ar fin mynd i ymgynghoriad arnynt yn nalgylch Y Berwyn. Mae'r gofyn i asesu safleoedd yn fanylach wedi oedi cyhoeddi cynigion yn nalgylch y Gader, ond disgwylir gallu gwneud hyn erbyn Pasg 2011.

## 2.0 STRWYTHUR Y DDOGFEN HON

2.1 Mae 2 rhan i'r adroddiad. Yn gyntaf, amlinellir y cyd-destun polisi i'r adolygiad, ac yn ail, rhoddir sylw i'r prif faterion sydd wedi dod i'r amlwg ynghyd â chynigion ar gyfer ymateb iddynt.

## 3.0 CYD-DESTUN POLISI

### 3.1 Ysgolion 21ain Ganrif

3.1.1 Yn ystod 2009 cyhoeddwyd raglen newydd ar gyfer uwchraddio holl ysgolion Cymru dan faner *Ysgolion 21ain Ganrif*. Bydd y rhaglen newydd yn uno holl grantiau cyfalaf Llywodraeth y Cynulliad dan y faner newydd. Mae'r Rhaglen yn nodi diffiniadau amlinellol o'r hyn a olygir gan "Ysgol 21ain Ganrif":

- Ysgolion a drefnir i ymateb i ymagweddau newidiol at addysgu a dysgu, ynghyd ag arweinyddiaeth gryfach mewn ysgolion a chyfranogiad cymuned yr ysgol, gan adlewyrchu anghenion lleol a chefnogi pobl ifanc i gyflawni eu potensial.
- Amgylcheddau i ysbrydoli, sy'n briodol i ddatblygiadau a thechnolegau addysgol newydd, sy'n effeithlon ond yn ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer anghenion newidiol y dyfodol hyd at 2030.
- Amgylcheddau cynaliadwy, o safon orau'r byd i athrawon addysgu ac i ddysgwyr ddysgu; cefnogaeth lawn TGCh, sy'n gyrru gwelliannau mewn safonau addysgol, ac yn ymdrin ag ystyriaethau newid yn yr hinsawdd. Defnyddir manyleb seiliedig ar allbwn, yn ôl safonau cytûn (a gaiff eu diwygio lle bo'n briodol) am yr 21ain Ganrif .
- Yn gynhwysol, gan gynnig darpariaeth briodol i anghenion dysgu unigol pob dysgwr, lleoedd sy'n gwneud i'r sawl ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau deimlo bod eu hanghenion yn cael eu parchu, ac sy'n caniatáu i bob aelod o weithlu'r ysgol weithio, gorffwys a chymdeithasu.
- Adnodd eithriadol i'r gymuned gyfan a all gynnig amrediad o gyfleusterau ar yr un safle fel gofal plant, gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, a hyfforddiant i oedolion.
- Cyfle i'r ysgolion a gwasanaethau eraill weithio ar y cyd er mwyn gwella addysgu a dysgu ac i gysylltu'n fwy effeithiol â'r agenda drawsnewid ôl-16.

3.1.2 Disgwylir i awdurdodau lleol baratoi Cynllun Amlinellol Strategol fydd yn adnabod anghenion cyfalaf siroedd dros y 10 mlynedd nesaf. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno'u cais erbyn 10 Rhagfyr 2010.

3.1.3 Mae'n ofynnol i awdurdodau adnabod anghenion gwariant fesul "bandiau" gwariant o 3 mlynedd. Gofynnir i awdurdodau gyflwyno ceisiadau Band A - sef cyfnod 2012-2015 - mewn peth manylder gyda'r cais. Cyflwynir manylion ar geisiadau Band A Gwynedd i gyfarfod Bwrdd y Cyngor ar 14 Rhagfyr 2010.

3.1.4 Mae'r hinsawdd cyllidol presennol yn codi cwestiwn am gyfanswm y grantiau fydd ar gael ac am hyd y rhaglen. Mae'r negeseuon diweddaraf yn codi cwestiwn am amseriad cynnal adolygiadau dalgylch a chyflwyno ceisiadau cyfalaf.

## 3.2 Rhaglen Strategol "Tuag at 2025"– Dyfodol Addysg a Hyfforddiant i Blant a Phobl Ifanc yng Ngwynedd

3.2.1 Cymeradwywyd strategaeth *Tuag at 2025* gan Gyngor Gwynedd ar 21 Hydref 2010. Dyma'r strategaeth sy'n gosod cyfeiriad strategol hir dymor i addysg a hyfforddiant ar gyfer plant a phobl ifanc 3-19 yng Ngwynedd, ac yn cynnig ein safbwynt fel Cyngor i ddatblygiadau polisi cenedlaethol, fel Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif a Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.

3.2.2 Mae'r strategaeth yn adnabod gweledigaeth i:

"gynnig addysg a hyfforddiant dwyieithog o'r ansawdd uchaf posib fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant a phobl ifanc y Sir a'u galluogi i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn".

3.2.3 Mae'r weledigaeth ar gyfer addysg a hyfforddiant yn yr 21ain Ganrif yn seiliedig ar chwe phrif amcan:

- Cynnig y profiadau dysgu gorau posibl - a hynny i holl ddysgwyr y Sir, gan sicrhau cwricwlwm cyffrous ac eang, yn ogystal â'r cwricwlwm allgyrsiol, sy'n eu hysgogi i ddysgu a deall ac yn arwain at wella safonau, gan wneud y defnydd gorau posibl o Dechnoleg Gwybodaeth;
- Hyrwyddo a chefnogi iechyd corfforol a lles emosiynol plant a phobl ifanc – gan sicrhau bod y prif sefydliadau addysg a hyfforddiant yn y Sir yn chwaraewyr allweddol wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau integredig i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd;
- Paratoi pobl ifanc ar gyfer y byd gwaith - gan wneud yn siŵr eu bod yn cael eu harfogi efo'r mathau cywir o sgiliau ar gyfer cyflogaeth, yn enwedig o fewn yr economi leol;

- Creu amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf i blant, pobl ifanc ac athrawon y Sir – a hynny yn bennaf drwy wella cyfleusterau ac adeiladau, a sicrhau bod ysgolion wedi'u cyflunio i ymateb i'r newid yn arferion prosesau addysgu a dysgu cyfoes, yn enwedig wrth ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth;
- Datblygu sefydliadau addysgol o'r math cywir (cynradd ac uwchradd) i fod yn rhai sy'n ganolbwynt i wasanaethau cyhoeddus a chymunedol lle'n briodol – a chyfoethogi profiadau i blant a phobl ifanc wrth iddynt ddod yn rhan o sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i'r gymuned eangach;
- Cryfhau'r Iaith Gymraeg – fel cyfrwng addysgol a chymdeithasol – a galluogi plant a phobl ifanc i gael mynediad at addysg a hyfforddiant dwyieithog.

## 3.3 Y broses statudol ac arweiniad y Llywodraeth

3.3.1 Rhoddir amlinelliad o'r disgwyliadau statudol wrth ymgynghori i gau ysgol gan y Llywodraeth trwy ddeddfwriaeth a rheoliadau 021/2009 *Cynigion Trefniadaeth Ysgolion.*

3.3.2 Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg yn ystod haf 2010 ei fwriad i fyrhau'r broses statudol. Mae ymgynghoriad ar gynnig i dorri tua 6 wythnos oddi ar y broses statudol yn digwydd ar hyn o bryd. Bydd cyfres o ymgynghoriadau ar newid y broses statudol yn ystod 2010-2011.

## 3.4 Y sefyllfa gyllidol

3.4.1 Mae'r hinsawdd ariannol yn gwbl wahanol erbyn hyn i'r cyfnod pan gynhaliwyd trafodaethau wrth roi'r strategaeth wreiddiol at ei gilydd. Heb os, bydd gwasanaethau cyhoeddus ar draws Cymru yn wynebu toriadau ariannol sylweddol dros y blynyddoedd nesaf, a bydd hyn yn debygol o gael effaith ar holl wasanaethau'r Cyngor, yn cynnwys Addysg.

3.4.2 Bydd gofyn bod yn fyw i oblygiadau'r wasgfa ariannol ar ddyfodol addysg ac ysgolion yng Ngwynedd, ac yn naturiol, bydd ystyriaethau ariannol yn dod yn fwy- fwy wrth gynllunio ar gyfer dyfodol strwythur addysg yn y Sir. Nid oes modd anwybyddu hynny. Bydd angen hefyd cael dealltwriaeth lawn o raglen gyfalaf y Cynulliad ar gyfer buddsoddi mewn datblygiadau newydd, Er y bydd rhaglen gyfalaf y Cynulliad yn debygol o leihau, mae'n

allweddol fod y Cyngor yn parhau i roi blaenoriaeth i ddatblygu cyfundrefn addysg o safon i'r Sir, ac yn ystyried dulliau gwahanol o gyllido unrhyw anghenion buddsoddi sy'n codi o gynigion newydd

## 3.5 Ffederasiwn Prifathrawon Ysgolion Cynradd Gwynedd

3.5.1 Cyflwynir yn Atodiad 1 bapur yn amlinellu deilliant trafodaeth rhwng cynrychiolwyr Ffederasiwn Prifathrawon Ysgolion Cynradd Gwynedd a'r Pennaeth Addysg yn Haf 2010.

3.5.2 Mae nifer o ddatganiadau pwysig yn y papur hwn, yn cynnwys datganiad rhif 6, sy'n nodi bod y "broses ad-drefnu bresennol yn araf, yn feichus ac ailadroddus. Ni chredir ei bod yn broses gynaliadwy fel y mae a dylid ei hadolygu. Ar sail profiad y flwyddyn fe nodir bod y disgwyliad ar ysgolion a'u cymunedau i gyfrannu'n llawn i'r broses yn drwm, a hynny oddi fewn i amserlen gyfyng."

## 4.0 MATERION A GODWYD A CHYNIGION

4.0.1 Yn ystod 18 mis y cynllun hyd yn hyn, daeth nifer o faterion i'r amlwg. Amlinellir rhai ohonynt isod ynghyd â syniadau i ymateb iddynt.

## 4.1 Adolygiad strategol o ddarpariaeth addysg

4.1.1 **Mater** - <u>Yr angen i gynnwys gweddill darpariaeth addysgol yn y broses</u>

4.1.2 Sefydlwyd y cynllun yn wreiddiol fel adolygiad o drefniadaeth gynradd. Y bwriad yn y strategaeth oedd cynllunio'r newid yn y sector cynradd fesul dalgylch, gan flaenoriaethu'r dalgylchoedd ble mae'r angen am y newid fwyaf amlwg a chlir.

4.1.3 Er hynny, daeth i'r amlwg yn gynnar iawn wrth weithredu'r strategaeth nad oedd modd peidio cynnwys ysgol uwchradd y dalgylch yn y trafodaethau wrth ystyried cynigion ar gyfer addysg gynradd.

4.1.4 Gwelwyd cyfle yn ogystal mewn rhai dalgylchoedd i adolygu'r ddarpariaeth addysgol yn gyfan gwbl, gan ystyried posibiliadau, er enghraifft, o rannu adeiladau/adnoddau rhwng y cynradd a'r uwchradd drwy ddatblygu'r cysyniad o gampysau gydol oes.

4.1.5 Wrth gwrs, ni fydd sefydlu campysau gydol oes yn ymarferol ym mhob dalgylch, ond bydd gofyn sicrhau bod cynigion i ad-drefnu addysg mewn ardaloedd gwahanol yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau yn y maes.

4.1.6 Ategir hyn gan "Tuag at 2025", sy'n datgan yn glir bod rhaid i'r drefn bresennol newid:

"mae hi'n allweddol bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i ddefnyddio adnoddau yn y modd gorau posibl o fewn y gyfundrefn addysg a hyfforddiant - yn adnoddau dynol, technegol, adeiladol neu ariannol - a hynny er lles plant a phobl ifanc. Mae canran sylweddol o'r gyllideb addysg ar hyn o bryd yn mynd ar gynnal isadeiledd costus iawn, yn y sector cynradd ac uwchradd, ac nid yw hyn yn gynaliadwy i'r dyfodol. Yn ogystal, mae gwariant sylweddol ar ysgolion sydd â chanran helaeth o lefydd gweigion.

4.1.7 Bydd angen cymryd camau i resymoli'r nifer o ysgolion ar draws y Sir, ynghyd ag adnabod cyfleon i wella effeithiolrwydd yn gyffredinol yn y gyfundrefn addysg a hyfforddiant. Ar gyfer yr Unfed Ganrif ar Hugain, mae angen sicrhau bod gan Wynedd rwydwaith o ysgolion o'r math cywir yn y lleoliadau cywir ar draws y Sir. Byddai lleihau llefydd gweigion a sicrhau ysgolion cadarn eu maint yn rhoi inni gyfleoedd i ddatblygu elfennau cynhwysol..."

4.1.8 Ein teimlad felly yw bod angen cael gweledigaeth glir ar gyfer addysg feithrin, cynradd, uwchradd ac arbennig wrth wneud y gwaith cynllunio manwl fesul dalgylch.

***Cynnig***

4.1.9 Mae'r broses bellach angen ei hail-ddiffinio fel adolygiad strategol o drefniadaeth addysg yn y dalgylchoedd unigol gan gynnwys addysg feithrin, cynradd, uwchradd, arbennig.

4.1.10 Er mwyn cefnogi'r gwaith yma, ac er sicrhau bod trosolwg strategol o'r holl faes yn derbyn y sylw priodol, awgrymir y dylid ail-sefydlu'r Gweithgor Gwella dan arweiniad y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc. Bydd y Gweithgor Gwella yn cymryd lle'r Panel Ymgynghorol Sirol a fu'n cynghori'r Arweinydd Portffolio wrth ddod â modelau gerbron. Bydd yr Arweinydd Portffolio yn sylwebydd yn y Gweithgor Gwella.

## 4.2 Symleiddio a chyflymu'r broses

4.2.1 **Mater** – Yr angen i gyflymu'r broses adolygu

4.2.2 Mae tystiolaeth a gyflwynwyd gan randdeiliad yn y dalgylchoedd, penaethiaid ysgolion a swyddogion sydd yn gweithio ar y cynllun fod y broses yn llafurus a'r trafodaethau dalgylchol yn cymryd gormod o amser. Mae risg sylweddol bod yr amser a gymerir yn cynyddu ansicrwydd ac yn tanseilio perthynas cymunedau o fewn dalgylch â'i gilydd. Mae ystod helaeth o'r gweithgareddau ymgysylltu yn anstatudol ac nid oes angen cyfreithiol eu cynnal.

4.2.3 Yn y strategaeth wreiddiol, cafwyd arweiniad i sefydlu Paneli Adolygu Dalgylch fel bod y broses o drafod opsiynau gwahanol ar gyfer yr ardal yn cael ei chynnal mewn dull agored a chynhwysol. Roedd maes gwaith y Paneli yn cynnwys casglu tystiolaeth leol a chyflwyno syniadau ac opsiynau gwahanol i'r Arweinydd Portffolio Addysg. Awgrymwyd yn y strategaeth mai rhwng 3 a 4 o gyfarfodydd o'r Panel a gynhelid.

4.2.4 Mae'n bwysig bod y Paneli Adolygu Dalgylch yn parhau fel bod modd cynnal trafodaeth leol ar y ddarpariaeth addysg yn yr ardal, ond mae'n bosibl cael gwell ffocws i'r cyfarfodydd a gwneud llawer o'r gwaith rhagbaratoi a gwaith ymchwil ymlaen llaw. O wneud hyn, bydd mwy o amser yn cael ei ganiatáu yng nghyfarfodydd y Paneli i ystyried dyfodol y gyfundrefn addysg leol. Fel rhan o'r broses o gasglu tystiolaeth a rhagbaratoi, mae'n bwysig bod y cyfarfodydd unigol ag ysgolion yn parhau. Ein bwriad ydyw cynnal y cyfarfodydd hyn cyn y Panel Adolygu Dalgylch.

***Cynnig***

4.2.5 Dylid cyflwyno a gwirio'r pecyn ystadegol gydag ysgolion cyn cychwyn trafodaethau'r Panel Adolygu Dalgylch.

4.2.6 Dylid comisiynu swyddogion i gynnal asesiadau o anghenion y gymuned, datblygiadau tai, cynlluniau adfywio ac unrhyw wybodaeth arall berthnasol cyn cychwyn trafodaethau dalgylch.

4.2.7 Dylid comisiynu gwaith cyfreithiol ar berchnogaeth safleoedd, cyfamodau ar ddefnydd y tir ac unrhyw faterion cyfreithiol perthnasol eraill.

4.2.8 Dylid cadw at y bwriad gwreiddiol o gynnal 3 neu 4 o gyfarfodydd o'r Paneli Adolygu Dalgylch, ond anelu i sicrhau bod gwaith ymchwil a rhagbaratoi yn digwydd cyn cyfarfodydd y Paneli a bod ffocws clir yn cael ei roi ar ystyried modelau posibl fyddai'n rhoi sail gadarn i addysg yr ardal i'r dyfodol.

## 4.3 Rhagbaratoi rhai modelau ad-drefnu posib

4.3.1 **Mater** – Yr angen i ddatblygu modelau posib mewn dalgylchoedd

4.3.2 Agorwyd y broses o adolygu dalgylch gyda thudalen lân. Mae'r drefn o wahodd modelau posib gan aelodau'r Panel Adolygu Dalgylch ac yna'r Panel Ymgynghorol Sirol, wedi arwain at sefyllfa lle mae yn agos i ddeuddeg opsiwn yn gorfod cael eu hasesu'n fanwl mewn un dalgylch, sy'n creu llwyth gwaith sylweddol ac yn golygu bod y broses o ran cyrraedd at y rhestr fer o opsiynau yn gallu bod yn feichus dros ben. Mae lle i gwestiynnau y gwerth a bûdd o ystyried cynifer o fodelau. Mewn rhai dalgylchoedd, mae'r broses o gyflwyno modelau newydd yn parhau i drydydd cyfarfod y Panel Adolygu Dalgylch.

4.3.3 Ein teimlad yw bod angen i'r Arweinydd Portffolio, ar y cyd gyda swyddogion o'r Adran Addysg, wneud mwy o waith rhagbaratoi o ran opsiynau posibl ar gyfer dyfodol addysg dalgylchoedd penodol, fel sy'n digwydd mewn nifer o Awdurdodau Lleol eraill. Byddai hynny yn ein galluogi i wneud gwell defnydd o gyfarfodydd y Paneli Adolygu Dalgylch, a chael trafodaeth ystyrlon o gwmpas modelau posibl ar gyfer dyfodol addysg yr ardal. Bydd cynnwys trafodaethau ac ystyriaeth o'r hyn drafodir yn y cyfarfodydd unigol ag ysgolion yn cael sylw wrth ddatblygu'r modelau posib. Yn ychwanegol, dylid sicrhau fod unrhyw fodelau posib yn cyd-fynd ag amcanion y strategaeth wreiddiol (Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd):

- Cynnig y profiadau a'r cyfleoedd gorau posibl i blant y Sir drwy sicrhau dosbarthiadau o faint addas ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel yn ein hysgolion;
- Anelu i hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg - fel cyfrwng addysgol a chymdeithasol- wrth roi cynigion newydd yn eu lle ar gyfer addysg gynradd y Sir;
- Ymateb i anghenion a chyfleon yn y gyfundrefn addysg gynradd bresennol drwy fod ynrhagweithiol a chreadigol, gan weithio ar y cyd gydag eraill tuag at gynllun hir dymor fydd yn gynaliadwy ac ymarferol;

- Gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael – yn ddynol, technolegol, ariannol – fel bod plant yn cael y budd mwyaf o wariant y Sir ar addysg;
- Creu amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf i blant ac athrawon y Sir drwy wella cyfleusterau ac adeiladau;
- Datblygu ein hysgolion i fod yn sefydliadau sy'n ganolbwynt i weithgareddau cymunedol.

***Cynnig***

4.3.4 Awgrymir felly bod angen yr hawl i'r Arweinydd Portffolio Addysg, ar y cyd gyda swyddogion o'r Adran Addysg, i ddatblygu modelau ad-drefnu posib cyn cychwyn y trafodaethau dalgylch. Bydd hyn yn ran allweddol o'r gwaith rhagbaratoi cyn y trafodaethau dalgylch. Ni ddylai hyn atal aelodau'r PAD rhag cynnig modelau ychwanegol, ond byddai adnabod rhai modelau amlwg yn symud y drafodaeth ymlaen yn sylweddol.

4.3.5 Awgrymir comisiynu gwaith i ystyried oblygiadau rhagolygon cyllido ysgolion, ynghyd ag adnabod costau ynghlwm â modelau ad-drefnu posib.

## 4.4 Safleoedd

4.4.1 **Mater** – Yr angen i gael gwell dealltwriaeth o'r safleoedd sydd ar gael i wireddu unrhyw gynlluniau cyn cychwyn trafodaethau ar fodelau o'r math.

4.4.2 Mae nifer o'r modelau a drafodwyd hyd yn hyn yn y 3 dalgylch yn ddibynnol ar argaeledd safleoedd addas. Mae'r egwyddor o gychwyn gyda thudalen lân fesul dalgylch yn golygu nad oes modd adnabod ac asesu safleoedd posib tan hanner ffordd drwy'r broses o adolygu'r dalgylch. Mae hyn wedi cyfrannu at gynyddu ansicrwydd mewn rhai dalgylchoedd.

4.4.3 Ein teimlad yw bod modd goresgyn hyn drwy fuddsoddi mwy o amser yn y gwaith rhagbaratoi unwaith yn rhagor, a sicrhau ein bod yn glir pa safleoedd sydd ar gael ar gyfer unrhyw ddatblygiad o'r newydd fel na threulir amser yn trafod cynigion nad oes gobaith eu gwireddu.

4.4.4 Yn ychwanegol, mae gofyn dilyn rhaglen fuddsoddi glir ar gyfer uwchraddio ysgolion y Sir er mwyn cyrraedd y safonau priodol fel ag yr amlinellir yn Rhaglen "Ysgolion yn yr Unfed Ganrif ar Hugain" y

Cynulliad. Yn naturiol, rhaglen fuddsoddi tymor hir fyddai hwn, ond mae'n allweddol ein bod yn glir beth yw maint y buddsoddiad cyfalaf sydd ei angen ar ysgolion y Sir. O gomisiynu gwaith o'r math yn awr - a hynny yn seiliedig ar y gwaith rhagbaratoi o lunio modelau posibl ar gyfer dalgylchoedd fel y sonnir amdanynt uchod - bydd anghenion uwchraddio cyfleusterau ac adnoddau o fewn ysgolion yn dod yn gliriach.

***Cynnig***

4.4.5 Yn dilyn o'r argymhelliad y dylid gwneud gwaith rhagbaratoi ar fodelau ad-drefnu cychwynnol, awgrymir bod yr Uned Eiddo yn cael ei chomisiynu i gefnogi'r broses o adnabod safleoedd posib i wireddu opsiynau.

4.4.6 Yn ychwanegol, dylid comisiynu'r Uned Eiddo i wneud asesiad o'r hyn sydd angen ei wneud i uwchraddio ysgolion y Sir ar gyfer cyrraedd safonau rhaglen "Ysgolion yn yr Unfed Ganrif ar Hugain".

## 4.5 Materion ieithyddol, cymunedol, economaidd a chydraddoldeb

4.5.1 **Mater –** Yr angen i gynnal Asesiadau o Effaith

4.5.2 Mae bellach yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal asesiadau o effaith ieithyddol, cymunedol a chydraddoldeb cynigion ad-drefnu. Rydym hefyd wedi comisiynu asesiad o effaith economaidd opsiynau yn nalgylch y Gader. Serch hynny, nid yw amserlen bresennol yr adolygiadau dalgylch yn caniatáu asesiad trylwyr o effaith yr opsiynau na chwaith amser i ystyried canfyddiadau'r gwaith cyn cyflwyno cynigion.

***Cynnig***

4.5.3 Mae angen comisiynu asesiad sylfaen ac asesiad o effaith ieithyddol, economaidd, cymunedol a chydraddoldeb ystod cyfyng o fodelau ad-drefnu cyn y broses dalgylchol.

## 4.6 Sefyllfaoedd argyfyngus

4.6.1 **Mater** – Yr angen i ymateb i sefyllfaoedd argfyngus

4.6.2 Wrth flaenoriaethu dalgylchoedd ar gyfer adolygiad yn y Strategaeth wreiddiol, defnyddiwyd ystod o ystadegau i fwydo

meini prawf penodol. Mae'r meini prawf yn cymryd trosolwg o'r sefyllfa ar lefel dalgylch. Nid yw felly yn adnabod sefyllfaoedd unigol o bryder. Daeth yn amlwg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf bod yna ysgolion sydd bellach yn annerbyniol o safbwynt cyflwr neu addasrwydd neu tan-gapasiti ond nad oes modd ymateb ar frys oherwydd y drefn flaenoriaeth a fabwysiadwyd yn y strategaeth wreiddiol.

4.6.3 Teimlwn y dylai'r broses roi llawer mwy o flaenoriaeth i sefyllfaoedd argyfyngus. Byddai cadw at y drefn flaenoriaeth bresennol o ran adolygu dalgylchoedd yn creu risg annerbyniol mewn nifer o ardaloedd, yn enwedig o ystyried cyflwr bregus rhai o ysgolion y Sir. Bydd angen felly rhoi mwy o sylw i achosion argyfyngus o fewn y drefn flaenoriaethu dalgylch yn y broses ad-drefnu.

***Cynnig***

4.6.4 Dylid comisiynu darn o waith ar adnabod sefyllfaoedd argyfyngus o fewn y Sir a chynllunio rhaglen ymateb o fewn cyd-destun y strategaeth.

## 4.7 Rôl Aelodau Etholedig

4.7.1 **Mater** – Yr angen i sicrhau cyfraniad Aelodau Etholedig i drafodaethau lleol

4.7.2 Mae gan Aelodau Etholedig rôl allweddol yn y trafodaethau lleol. Maent yn ddolen gyswllt hollbwysig wrth gyfleu anghenion eu hardaloedd, ac maent hefyd yn chwarae rôl bwysig wrth gyfleu'r sefyllfa sirol i'w hardaloedd. Bu Aelodau Etholedig yn rhan bwysig o'r Paneli Adolygu Dalgylch ond teimlwn fod cyfle iddynt - fel tîm o Aelodau lleol ar gyfer y dalgylch - ddod at ei gilydd yn amlach i drafod y cynigion arfaethedig a'r oblygiadau o'u gweithredu.

***Cynnig***

4.7.3 Dylid anelu i sicrhau bod Aelodau'r dalgylch yn cyfarfod yn ystod y broses o adolygu darpariaeth yr ardal er mwyn trafod a rhoi arweiniad ar y cynigion, yr oblygiadau, dewis safleoedd ac ati ac i weithio fel dolen gyswllt efo'r cymunedau lleol.

## 4.8 Amserlen ar gyfer gweithredu'r cynigion newydd

4.8.1 Dylid cwblhau adolygiadau dalgylchoedd Tywyn, Y Berwyn a'r Gader erbyn Gwanwyn 2011.

4.8.2 Fel blaenoriaeth dylid gwneud gwaith rhagbaratoi rhwng Rhagfyr 2010 ac Ebrill 2011.

4.8.3 Dylid adnabod sefyllfaoedd argyfyngus, a rhaglen ymateb fel rhan o'r gwaith paratoi, a byddwn yn blaenoriaethu adolygiadau o'r ysgolion hyn o Ebrill 2011-Rhagfyr 2011. Dylid ystyried cynnal yr adolygiadau hyn ar lefel is-ddalgylch neu drawsddalgylch lle bo hynny'n briodol, yn unol ag egwyddorion ac amcanion y strategaeth.

4.8.4 Dylid wedyn adnabod amserlen hir dymor ar gyfer cyflawni adolygiadau o ddarpariaeth addysg y sir o 2011 ymlaen. Cyflwynir argymhellion i'r perwyl hyn gerbron y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc.

## 5.0 CYMERADWYO'R CYNIGION

5.1 Cyflwynwyd yr argymhellion gerbron Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc 30 Tachwedd 2010. Cefnogwyd yr argymhellion gan y Pwyllgor, ac yn unol â'r argymhellion, penderfynodd y Pwyllgor sefydlu Gweithgor amlbleidiol i fwrw ymlaen â'r gwaith ymhellach.

5.2 Cyflwynwyd yr argymhellion yn eu tro gerbron cyfarfod o Fwrdd y Cyngor ar 14 Rhagfyr 2010. Cyflwynir adroddiad llafar ar argymhellion y Bwrdd gerbron y cyfarfod hwn o'r Cyngor Llawn.

## 6.0 ARGYMHELLION

6.1 Nodir yr argymhellion ar gyfer newid prosesau ad-drefnu ysgolion Gwynedd fel a ganlyn:

- i gynnwys gweddill darpariaeth addysgol y sir yn y broses o'r meithrin, cynradd, uwchradd, arbennig, a champysau gydol oes
- i ail-sefydlu Gweithgor Gwella Trefniadaeth Addysg dan arweiniad Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc i gymryd trosolwg o holl ddarpariaeth addysgol y sir

- i dderbyn yr angen i resymoli nifer ysgolion yn y sir er mwyn sicrhau rhwydwaith o'r niferoedd cywir o ysgolion, o'r math cywir, yn y lleoliadau cywir

- i gymryd ystyriaeth lawn o'r cyd-destun cenedlaethol a sirol, gan gynnwys materion cyllidol a'r angen i ddatblygu rhaglen fuddsoddi cyfalaf tymor hir

- i gynnal ystod eang o waith rhagbaratoi yn ystod y misoedd nesaf er mwyn darparu'r wybodaeth ar gyfer y trafodaethau a chyflymu'r adolygiadau dalgylch

- cynnal asesiad sylfaen o faterion ieithyddol, cymunedol, economaidd a chydraddoldeb ar draws y sir a chynnal asesiad cychwynnol o effaith rhai o'r modelau ad-drefnu posib ar y materion hynny

- i roi llawer mwy o flaenoriaeth i sefyllfaoedd argyfyngus a chynllunio rhaglen ymateb

- parhau i gynnal adolygiadau ar lefel dalgylch a thrwy ymgynnull Panel Adolygu Dalgylch ar sail y gwaith rhagbaratoi a nodir uchod

- i sicrhau fod Aelodau lleol yn cyfarfod yn ystod y broses o ad-drefnu dalgylch.

6.2 Noder yn Atodiad 2 amserlen fer ar gyfer cyfnod Rhagfyr 2010-Gorffennaf 2011.

6.3 Bwriedir cyflwyno rhaglen waith manwl, yn seiliedig ar y gwaith rhagbaratoi gyfeirir ato uchod, gerbron cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc.

A. Barn yr Aelod Lleol:

B. Barn y Swyddogion Statudol:

1. Prif Weithredwr:

"Yn amlwg, mae'n ymarfer da i adolygu prosesau allweddol fel y Strategaeth Ad-drefnu ar sail y profiad o weithredu hyd yn hyn. Rwy'n ymwybodol bod gwaith manwl wedi digwydd ar y strategaeth ac, wrth gwrs, bellach mae'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc wedi cymeradwyo'r cynigion."

2. Swyddog Monitro:

"Gan fod yr adolygiad yn cynnig rhai newidiadau i'r ffordd o weithredu'r strategaeth wreiddiol mae'n briodol i'r adroddiad gael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn, gydag argymhellion y Bwrdd. Nid oes gennyf unrhyw sylw o safbwynt cyfreithlondeb na phriodoldeb ar fanylion yr argymhellion."

3. Prif Swyddog Cyllid:

"Credaf fod cydsyniad cynyddol fod canran gormodol o'r gyllideb addysg yn mynd ar gynnal isadeiledd costus, ac nid yw hynny'n gynaliadwy i'r dyfodol mewn hinsawdd ariannol sy'n gynyddol heriol. Dylid gwneud pob ymdrech i ddefnyddio adnoddau'r gyfundrefn addysg yn y modd gorau posibl. Felly, rwy'n cefnogi'r adolygiad o'r broses ad-drefnu ysgolion Gwynedd ac yn cytuno gyda'r angen i gyflymu'r adolygiadau dalgylch. Trwy resymoli'r nifer ysgolion ynghynt, byddai arbedion ar gael yn gynt i'w ailgylchu er lles holl ddisgyblion y sir."

C. Papurau Cefndir:

CH. Goblygiadau Polisi: